



# Siarad â'ch partner am arian



Gwasanaeth  
Cynghori Ariannol

Rydych chi'n rhannu'ch bywyd gyda'ch partner, ond nid o reidrwydd y gwir am eich cyllid.

Yn ôl Relate, mae un o bob tri o bobl yn dweud y byddai cefnogaeth wrth drafod dyledion a chyllid gyda'u partner yn fuddiol iddynt, felly rydym wedi dod â detholiad o awgrymau ynghyd i'ch helpu.

Yr amser allweddol i wybod am sefyllfa ariannol eich partner yw pan fydd yn dechrau dod yn rhan o'ch sefyllfa chi. Yn aml bydd hyn pan fyddwch yn dechrau byw gyda'ch gilydd a thalu biliau ar y cyd. Dyma pryd y gall sefyllfa ariannol eich partner ddechrau cael effaith mwy arwyddocaol ar eich un chi ac i'r gwrthwyneb.

Gall problemau godi ar unrhyw adeg mewn perthynas - pan fyddwch yn dechrau canlyn, pan benderfynwch symud i fyw gyda'ch gilydd, pan fyddwch eisiau cael plant, pan fyddwch yn prynu tŷ, pan fyddwch eisiau ymddeol, a hyd yn oed os byddwch yn penderfynu gwahanu.

Os ydych chi'n meddwl bod eich partner yn eich rheoli pan ddaw i arian, efallai'ch bod yn delio â cham-drin ariannol. Dyma'r **arwyddion** i gadw llygad amdanynt a beth allwch chi wneud am hyn.



## Cynnwys

Siarad â'ch partner am arian	2
Sut allwch chi daclo gwahanol agweddau neu ysgogiadau tuag at arian	3
"Dydy fy mhartner ddim eisiau trafod arian gyda mi"	4
"Mae bywyd wedi newid a dwi'n teimlo bod yn rhaid i mi ofyn i'm partner am arian"	5
"Dwi'n meddwl bod fy mhartner yn cuddio dyledion oddi wrthyf"	6
"Dydw i a fy mhartner ddim yn ennill yr un faint"	7
"Mae fy mhartner yn rheoli fy arian"	8
"Dwi'n meddwl bod gan fy mhartner broblem gamblo"	9
Pryd i gael help perthynas yn y diwedd	10





# Sut allwch chi daclo gwahanol agweddau neu ysgogiadau tuag at arian

Mae agwedd neu ysgogiad pawb tuag at arian yn wahanol. Efallai'ch bod yn ofalus ac yn cynilo pob ceiniog. Efallai'ch bod yn teimlo bod arian yno i'w wario ac 'na allwch chi ei gario i'r bedd gyda chi'.

Mae'n gwbl normal i gael barn wahanol am arian - mae pawb ohonom yn dod o wahanol gefndiroedd ariannol. Sut fyddwn ni'n rheoli'r gwahaniaethau hyn sy'n bwysig.

Y newyddion da yw y gall gostio llai i gyd-fyw a rhannu costau na byw ar eich pen eich hun. Felly, trwy fod yn 'bartneriaid' oes, byddwch yn cael cyfle i gynilo a buddsoddi na fyddai ar gael fel arall. Ond i wneud y gorau o hyn, rydych angen osgoi'r rhwystredigaeth a ddaw os oes gennych chi a'ch partner agwedd a nodau cwbl wahanol.

Mewn gwirionedd, mae'r tebygolrwydd y bydd unrhyw gwpl yn cytuno 100% ar bopeth fwy neu lai'n ddim, ond gall ystyried beth yw'ch gwahaniaethau barn arwain at gyfaddawd gwych a gwneud eich sefyllfa ariannol yn llai o drafferth.

Y cam cyntaf yw cyfrifo beth yw eich barn ar arian, ac yna i sefydlu cynllun.

Ydych chi'n gynilwr neu'n wariwr? Mae rhai pobl yn hapus i fyw gyda chardiau credyd neu orddrafft llawn. Mae rhai eisiau talu am bopeth, gan adael i'r person arall deimlo mewn dyled.

Gall fod materion i'w datrys hefyd pan fydd gan un partner incwm llawer uwch na'r llall. Beth bynnag yw'r sefyllfa, bydd rhannu penderfyniadau am wario a chynilo, a thrafod arian yn agored, yn helpu osgoi dadleuon a thensiwn.

Defnyddiwch y cwestiynau hyn i'ch helpu i ddeall eich agweddau chi a'ch partner tuag at arian ac i drafod eich nodau. Mae'n bwysig meddwl am beth ydych chi eich DAU eisiau:

- A yw'n well gennych chi fyw am heddiw?
- A ydych chi'n hyderus o ran rheoli arian?
- A ydych chi' n meddwl ei bod yn bwysig cadw golwg ar incwm a gwariant?
- Ydych chi'n hoffi chwilio am y fargen orau i wneud i arian fynd yn bellach neu brynu ar chwiw?
- A ydych chi'n agored i drafod arian?
- Ydych chi' n teimlo ei bod yn bwysig addasu pethau nad ydynt yn hanfodol pan fydd bywyd yn newid?
- Ble fyddwch chi'n troi am gymorth gyda'ch arian?

Gall gymryd mwy o ymdrech i osod nodau mewn perthynas, ond mae'n allweddol fel eich bod eich dau'n gwybod tuag at beth ydych chi'n gweithio wrth i chi dyfu eich cyllid. Byddwch hefyd yn fwy parod ar gyfer y newidiadau hynny a ddaw ac sy'n effeithio ar eich dewisiadau gwario. Gall fod yn addasiad mawr pan fydd y teulu'n tyfu ac incwm yn gostwng os bydd un partner yn stopio gweithio i ofalu am y plant.





## “Dydy fy mhartner ddim eisiau trafod arian gyda mi”

P'un a ydych chi'ch dau yn bobl cŵn, yn mwynhau'r un sioeau ar Netflix, neu'n dewis aros gartref ar nos Sadwrn yn hytrach na mynd allan i'r dref, bydd sawl ffordd i chi a'ch partner fod yn gydnaws. Fodd bynnag, os oes gennych chi wahanol agweddau neu arferion pan ddaw i arian, gallai hyn achosi straen yn eich perthynas.

Mae canfod ffordd i drafod arian a'ch sefyllfa ariannol yn bwysig. Gall fod yn fater emosiynol i rai, gan ysgogi pryderon am reolaeth neu brofiadau gwael wrth dyfu fyny.

Fodd bynnag, mae'n bwysig taclo sgysiau anodd. Dylid gwneud rhai penderfyniadau ar y cyd am eu bod yn effeithio ar y ddau ohonoch yn ariannol. Yr hiraf y byddwch gyda'ch partner, y mwyaf tebygol yw hi y bydd hyn yn wir.

Gall trafod arian fod yn rhwystredig iawn i'r ddau bartner. Efallai y bydd un yn teimlo ei fod yn cael ei blagio, tra bod eraill yn teimlo bod eu sefyllfa ariannol mewn perygl oherwydd eu partner. Gallwch leihau'r rhwystredigaeth yma gyda'r tri awgrym canlynol:

**1. Ei gwneud yn haws i'ch partner** – Os yw'ch partner yn teimlo bod dilyn cyllideb yn ormod o waith neu'n poeni na fydd yn gallu cadw ati, fyddwch chi ddim yn gallu gwerthu'r syniad yma iddo. Lluniwch gyllideb sylfaenol sy'n talu am y prif bethau, fel eich rhent neu forgais, biliau a bwyd ac ati. Yna trafodwch sut fyddwch chi'n gwario gweddill eich arian. Peidiwch ag anghofio cynnwys rhai eitemau y gallwch chi a'ch partner eu mwynhau, fel noson allan neu arian tuag at goginio pryd arbennig. Dangoswch i'ch partner nad yw cadw cyllideb yn golygu mynd heb bopeth rydych yn mwynhau.

**2. Trowch eich arian gwario dros ben yn arian parod** – ac wedyn pan fydd wedi mynd, mae wedi mynd – a does dim angen plagio.

**3. Ceisiwch osgoi canfod bai** – Yn hytrach na chanfod bai, dywedwch wrth eich partner nad sgwrs am pwy sy'n dda neu'n dda i ddim gydag arian fydd hi, ond sut allwch chi gyflawni eich nodau gyda'ch gilydd. Mae hyn yn arbennig o bwysig os nad ydych chi eisiau i'ch partner deimlo wedi ei feirniadu am arferion gwario. Mae teimlo bod rhywun yn eich barnu yn eich gwneud yn amddiffynol, fydd ddim yn fanteisiol i chi yn y sgwrs.

Am fwy o awgrymau ar sut i gychwyn sgwrs, cymrwch olwg ar ein canllaw Sut i drafod arian.

Mae'n cwmpasu paratoi'r sgwrs, dechrau'r sgwrs, a delio gydag adweithiau negyddol. Trwy eich darparu â'r awgrymau hyn, bydd y 'sgwrs arian' angenrheidiol iawn yn haws i chi a'ch partner.

Os yw'n anodd iawn siarad â'ch gilydd, efallai y bydd yn helpu i'ch partner siarad gyda rhywun annibynnol yn gyntaf:

- Gall y Gwasanaeth Cyngori Ariannol helpu ateb cwestiynau ariannol
- Gall Relate helpu gyda phryderon am berthynas
- Mae rhai gweithfannau yn cynnig gwasanaethau a buddion eraill sy'n cynnig cefnogaeth.





# “Mae bywyd wedi newid a dwi'n teimlo bod yn rhaid i mi ofyn i'm partner am arian”

Efallai y bydd y ddau ohonoch yn ennill arian ar wahân am flynyddoedd ac yna, mwyaf sydyn, gall newid amgylchiadau ddigwydd, fel beichiogrwydd neu golli swydd, sy'n golygu fod eich arian personol wedi ei gwtogi neu stopio'n gyfan gwbl.

Er eich bod wedi gweithio fel partneriaeth, yn ariannol, ers blynyddoedd, rhaid cael sgwrs anodd oherwydd mae un ohonoch yn mynd i orfod dibynnu ar y llall am arian, ac mae angen newid y deinameg pŵer.

Gall y sawl nad yw bellach yn ennill arian neu sydd fwyaf sydyn yn ennill llai deimlo'n analluog a darostyngol os yw eu partner yn tybio rheolaeth ariannol. Efallai y bydd yn teimlo'n euog neu fel bod rhaid cyfiawnhau pob ceiniog a warir. Efallai y bydd yn teimlo bod rhaid osgoi mynd allan neu wneud unrhyw beth sy'n golygu gwario arian, gan ynysu ei hun oddi wrth ffrindiau.

Mae mor bwysig cyfathrebu'n onest am eich disgwyliadau ariannol. Mae newid mawr mewn amgylchiadau yn amser perffaith i eistedd i lawr a llunio [cyllideb newydd sbon gyda'ch gilydd](#), gosod rhai nodau ar y cyd - ac yna edrych arno eto yn fisol. Defnyddiwch ein [cynllunydd cyllideb](#) i chi gychwyn arni.

Unwaith y byddwch wedi cwblhau'ch cyllideb ac wedi penderfynu ar eich nodau newydd, efallai y byddwch yn gweld bod rhaid i chi gwtogi ar eich gwario. Gwnewch yn siŵr y gwneir hyn fel tîm, yn hytrach na'i fod yn gyfrifoldeb i'r sawl sydd wedi gweld ei gyflog yn lleihau.

Mae'n werth meddwl sut fyddwch chi'n siarad gyda'ch gilydd am arian oherwydd gall pawb fod yn teimlo'n emosiynol iawn yn ystod y cyfnod hwn. Dylech osgoi dadleuon trwy osgoi defnyddio emosiynau (dwi'n meddwl, dwi'n casáu, mi hoffwn i) a defnyddio ffeithiau (Rydyn ni wedi gwario... Ti wedi prynu... Mae ganddon ni XX dros ben, ac ati).

**Os ydych chi'n cael babi, bydd y canllawiau hyn yn ddefnyddiol:**

[Budd-daliadau a hawliau i'w hawlio pan gewch fabi](#)

[Rhoi trefn ar eich arian pan fyddwch yn disgwyl babi](#)

[Cael trefn ar gyllid y teulu ar ôl cael babi](#)

[Cyfrifiannell costau babi](#)

**Os ydych chi wedi eich diswyddo, bydd y canllawiau hyn yn ddefnyddiol:**

[Y Llawlyfr Dileu Swydd](#)

[Tâl dileu swydd](#)

[Rhestr wirio os ydych allan o waith - pethau i'w gwneud os collwch eich swydd](#)

[Gwneud y gorau o'ch tâl dileu swydd](#)



## "Dwi'n cuddio dyledion oddi wrth fy mhartner"

Gall cael dyled drafferthus achosi cryn straen a gwneud i chi deimlo'n unig. Mae'n debyg y bydd ceisio delio gyda'r sefyllfa eich hun trwy ei chadw'n gyfrinach yn gwneud i'r straen yna deimlo'n llawer gwaeth.

Os mai chi sydd â phroblem dyledion yr ydych yn ei chuddio rhag eich partner, trafodwch y mater cyn gynted â phosibl. Cyntaf yn y byd y byddwch yn cynnal y sgwrs, hawsaf yn y byd fydd hi.

Meddyliwch am beth fydd eich partner eisiau ei wybod pan fyddwch yn datgelu hyn. Paratowch eich gwaith papur fel y gall weld y sefyllfa gyfan – a'ch bod yn ystyried y mater o ddifrif. Gallwch gael help i wneud hyn gyda'n [hofferyn canfod cyngor ar ddyledion](#) sy'n gallu'ch cyfeirio at y lle priodol.

Efallai y bydd eich partner yn gofyn:

- Pam wyt ti mewn dyled? Beth aeth o'i le?
- Mewn faint o ddyled wyt ti? Beth yw'r gyfradd llog?
- I bwy mae arnon ni arian?
- Oes yna gredydwy'r ar dy ôl di?
- Beth wyt ti'n bwriadu ei wneud i ddelio â'r ddyled?

Chwiliwch am amser pan nad oes gennych chi unrhyw gynlluniau, dim byd i fynd â'ch sylw (gwnewch yn siŵr bod y plant allan os oes gennych chi blant), fel bod gennych chi ddigon o amser i fynd trwy'r holl fanylion.

Mae angen i chi fod yn onest iawn yma. Does dim pwynt cuddio pethau – byddwch yn gwbl onest a chynnwys y cyfan mewn un sgwrs.

Gall cuddio'ch dyledion gael goblygiadau ehangach – efallai nid yn effeithio arnoch chi'n unig, ond gallai graddiad credyd eich partner fod yn y fantol.

Mae hynny am eich bod wedi'ch cysylltu'n ariannol i'ch cymar – trwy gyfrif banc, morgais neu gerdyn credyd ar y cyd ac ati – efallai y bydd banciau ac eraill yn edrych ar sefyllfa ariannol y ddau berson cyn gwneud penderfyniad. Gallwch wirio a ydych wedi'ch cysylltu trwy [weld eich adroddiad credyd](#), sy'n bosibl ei wneud am ddim.



# "Dwi'n meddwl bod fy mhartner yn cuddio dyledion oddi wrthyf"

Os ydych chi'n amau bod eich partner yn cuddio oddi wrthyf, mae'n bwysig trafod hyn nawr.

Cymerwch bum munud i ddarllen ein blog ar [Nodi arwyddion dyledion trafferthus](#), sy'n cynnwys:

- Dyledion yn y gorffennol
- Gorwario
- Bod yn ofidus, tawedog neu isel
- Ymddygiad cyfrinachol
- Newid mewn arferion gwario

Os byddwch yn canfod fod eich partner wedi bod yn cuddio dyledion, mae gennych hawl i fod yn flin. Yn wir, mae'n arferol a dealladwy i fod yn ddig. Fodd bynnag, nid dyma'r amser i ryddhau'r dicter hwnnw. Yn hytrach, rhaid i chi fod yn ymarferol. Gofynnwch i'ch partner am yr holl ffeithiau a ffigurau a chyfrifo'r tolc.

Gofynnwch i'ch partner gysylltu â'r arbenigwyr mewn elusen cyngor ar ddyledion a fydd yn gallu rhoi cyngor diduedd am ddim ar daclo dyledion – gallech hyd yn oed wneud hyn gyda'ch gilydd. Cymerwch olwg ar ein [hofferyn canfod cyngor ar ddyledion](#) i'ch rhoi mewn cysylltiad gyda chynghorwr am ddim ar-lein, wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.

Bydd angen i chi ddal i gyfathrebu i sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto. Os yw'ch partner ofn eich adwaith, mae'n fwy tebygol o guddio pethau, ac i'r gwrthwyneb. Eisteddych i lawr gyda'ch partner a chynllunio, fel tîm, sut fyddwch chi'n atal dyledion rhag bod yn problem yn y dyfodol.







## “Dydw i a fy mhartner ddim yn ennill yr un faint”

Os oes gwahaniaeth o ran faint ydych chi a'ch partner yn ennill, gallai achosi problemau gydag amser wrth i benderfyniadau ariannol mawr a bach godi. Mae cyfathrebu eich anghenion yn gynnwys ac yn aml yn ffordd wych i leihau rhwystredigaeth a brifo teimladau a balchder.

Fodd bynnag, os yw gwahanol lefelau incwm yn ei gwneud yn anodd penderfynu pwy sy'n gyfrifol am dalu costau, a sut fyddwch chi'n gosod nodau ariannol, mae yna ffyrdd eraill i ddechrau siarad am arian. Mae'n syniad da ystyried:

- **Pa filiau sy'n flaenoriaeth a phwy sy'n gyfrifol amdanynt** - Er enghraifft, os oes gan eich partner gredyd ar log uchel, efallai y byddwch yn cytuno y dylai flaenoriaethu talu hynny cyn ystyried gwario ar bethau moethus. Efallai y gallwch ei helpu trwy fyw'n rhad eich hun am ychydig fisoedd. Ar yr un pryd, gallai hyn eich helpu i gronni cynilion hefyd.
- **Nodau byrdymor a hirdymor** - Er enghraifft, cynilo ar gyfer gwyliau neu ymddeoliad. Gall penderfynu ar nodau, sefydlu cyllideb, a meddwl yn realistig am beth allwch ac na allwch wneud helpu blaenoriaethu beth sydd wir yn bwysig.
- **Trafodwch a ddylech fod yn rheoli eich arian ar y cyd, neu ar wahân** – gall cael trefn ar hyn osgoi cur pen a dadleuon ariannol.

- **Sut fyddwch chi'n rhannu biliau a chynilion ac ati** - Er enghraifft, os bydd un ohonoch eisiau rhannu biliau 50/50, ond mae un yn ennill llawer llai na'r llall, efallai y bydd angen i chi leihau eich treuliau trwy fwya llai o fwydydd drud neu fyw rhywle llai drud.

Os ydych chi mewn perthynas newydd, efallai bod gennych chi ymrwymadau ariannol yn barod neu gyn bartner y buoch yn gysylltiedig iddo'n ariannol, er enghraifft oherwydd bod gennych chi blant gyda'ch gilydd. Gall hyn effeithio ar eich perthynas newydd. Mae wir [werth ystyried sut ydych chi'n rhoi trefn ar eich cyllid](#). Fel eich bod yn cadw unrhyw ymrwymadau ariannol eraill ar wahân i'r rhai rydych yn rhannu gyda'ch partner newydd.



## “Dwi’n meddwl bod gan fy mhartner broblem gamblo”

Os yw’ch partner yn gamblo’n gyfrinachol ac wedi colli rheolaeth ar y sefyllfa, gall gael effaith ddinistriol ar eich sefyllfa ariannol a’ch perthynas.

Efallai y bydd gennych deimlad annifyr bod rhywbeth o’i le ond nad ydych yn gallu profi fod eich partner yn cuddio problem gamblo. Gofynnwch y cwestiynau canlynol i chi’ch hun:

- A yw’ch partner yn gyfrinachol am ei arian?
- A yw’ch partner yn dawedog neu’n amddiffynol ynghylch arian?
- A yw wedi cymryd camau i guddio cyfriflenni banc?
- A oes yna arian yn mynd allan o gyfrifon heb esboniad?

Y gwir plaen yw pan fydd gan bartner problem gamblo, mae nid yn unig yn niweidio ei sefyllfa ariannol ei hun, ond hefyd yn niweidio’r partner a’r teulu ehangach hefyd.

Gall rhywun gyda phroblem gamblo ddefnyddio unrhyw gynilion sydd ganddo neu’r teulu, fynd i ddyled ar gardiau credyd neu hyd yn oed godi ail forgais ar y cartref teuluol.

**Y peth cyntaf i’w wneud os ydych chi’n amau bod gan eich partner problem gamblo yw ceisio help.** Mae yna gryn dipyn o gefnogaeth ar gael. P’un a oes gennych chi broblem gamblo eich hun, neu os ydych wedi’ch effeithio gan rywun arall yn gamblo, [mae gan y GIG arweiniad ar beth allwch chi ei wneud](#). Gall hefyd eich helpu i gyfrifo os oes gennych chi broblem gamblo.

**Does dim angen i chi fod yn siŵr bod problem gamblo i ffonio a chael cyngor.** Er enghraifft, mae gan GamCare linell gymorth sydd ar agor saith niwrnod yr wythnos a fydd yn eich helpu i ystyried beth fydd eich camau nesaf. Gall hefyd eich helpu i ystyried a oes gan eich partner problem.

**Os nad ydych chi eisiau siarad gyda rhywun dros y ffôn,** mae gan GamCare wasanaeth ar-lein o’r enw Netline, sy’n eich galluogi i gyfnewid negeseuon gwib gyda chynghorydd, a fforymau ar-lein ble bydd pobl sydd wedi eu heffeithio gan broblemau gamblo yn gallu siarad a chefnogi ei gilydd.



## "Mae fy mhartner yn rheoli fy arian"

Mae gan bawb hawl i gael annibyniaeth ariannol, felly os yw eich partner yn rheoli eich arian, yn mynd i ddyledion yn eich enw, yn eich atal rhag bod yn ariannol annibynnol neu ennill eich arian eich hun, mae hyn yn gam-drin ariannol.

Mae'n fwy cyffredin nag a feddyliwch. Mae un o bob pump o oedolion yn y Deyrnas Unedig yn dioddef cam-drin ariannol mewn perthynas, ac mae'r math yma o gamdriniaeth bron bob tro yn gysylltiedig i gam-drin corfforol neu emosiynol, er ei bod yn bosibl ei brofi yn unigol.

Os ydych chi yn y sefyllfa hon, gallai siarad am arian achosi i'ch partner wneud neu ddweud pethau sy'n creu risg o niwed meddyliol neu gorfforol i chi.

Mae'n bwysig sylweddoli nad oes raid i chi ymdopi ar eich pen eich hun. I ddysgu mwy am beth sy'n cyfrif fel cam-drin ariannol, a beth i'w wneud am hyn, darllenwch ein canllaw [Amddiffyn rhag cam-drin ariannol](#).





## Pryd i gael help perthynas

Efallai y bydd yn haws i chi drafod problemau ariannol gyda rhywun annibynnol os yw'n effeithio ar eich perthynas.

Os ydych chi yng Nghymru neu Loegr mae gan y GIG offeryn ar ei wefan sy'n dweud wrthych [pa wasanaethau cyngori perthynas sydd ar gael](#) yn eich ardal - gyda llawer ohono yn gyngor am ddim.

Os ydych chi yng [Nghymru](#) neu [Loegr](#), gallwch gael gwe sgwrs 30 munud am ddim gyda chynghorydd hyfforddedig gyda'r elusen Relate. Os ydych chi eisiau sesiynau pellach, mae'n debyg y bydd cost am hyn yn seiliedig ar eich incwm.

Does gan Relate yng [Ngogledd Iwerddon](#) ddim dewis gwe sgwrsio, ond gall eich rhoi mewn cysylltiad gyda chynghorwyr am ddim (gyda ffioedd isel) yn agos at ble rydych chi'n byw.

Yn yr Alban, gallwch fynd i [Mygov.scot](#) a chwilio am sesiwn gyngori trwy 'The Spark' neu [Relationships Scotland](#) a fydd hefyd yn eich helpu i ddod o hyd i'ch gwasanaeth agosaf.







**Am ragor o gymorth gweler ein canllawiau ar ein safle:**

Siarad â'ch plant am arian

Siarad â chi'ch hun am arian

Siarad â'ch partner am arian

Siarad â ffrindiau am arian

Siarad gyda phobl hŷn am arian

Llinell Cyngor Ariannol **0800 138 7777\***  
Typetalk **1800 1 0800 915 4622**

**Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol**  
Holborn Centre  
120 Holborn  
Llundain EC1N 2TD  
© Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol

\*Mae galwadau am ddim. Er mwyn ein helpu i gynnal a gwella ein gwasanaeth, efallai y byddwn yn recordio neu fonitro galwadau.



**Gwasanaeth  
Cyngori Ariannol**